## Deiseb: Galwad i Wahardd yr Arfer o Ddal Swyddi fel Cynghorydd ac fel Aelod Cynulliad ar yr un pryd

11 Gorffennaf 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mehefin, pan wnaethoch ofyn am:

*Y llythyr a drosglwyddwyd o'r Pwyllgor Deisebau i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a sbardunodd y cais er BUDD bod yn agored a thryloyw a PHOB dogfen sy'n gefndir i'r cais hwn i'r Cynulliad am DDEISEB ac sy'n sail ar gyfer trafodaeth, hynny yw, os cafodd ei DRAFOD yn unrhyw le ac os creodd UNRHYW ohebiaeth neu gyfathrebu ag UNRHYW gorff, person neu drydydd parti a oedd â diddordeb yn unrhyw le o fewn Llywodraeth Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

Gallwn ddarparu'r wybodaeth a gasglwyd yn sgîl eich cais erbyn hyn, drwy'r dogfennau copi amgaeedig (defnyddiwch y manylion cyswllt a ddarperir isod os ydych am gael copi o'r dogfennau hyn). Nid yw'r dogfennau a gawsoch chi, fel y prif ddeisebydd yn flaenorol, wedi'u cynnwys.

Mae rhagor o wybodaeth yn bod, sydd wedi'i chynnwys yn y dogfennau a gasglwyd yn sgîl eich cais, ond mae'r wybodaeth wedi'i gwarchod gan fraint gyfreithiol, broffesiynol. Mae hyn yn golygu bod eithriad rhag ei datgelu – mae'r eithriad ar gyfer braint broffesiynol gyfreithiol i'w gael yn adran 42 o *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* ac mae'n gymwys i rywfaint o'r wybodaeth yr ydych wedi gwneud cais amdani.

Diben yr eithriad yw sicrhau cyfrinachedd rhwng gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a'u cleientiaid i sicrhau eu bod yn agored â'i gilydd ac i ddiogelu hygyrchedd at gyngor cyfreithiol gwybodus, ymarferol a didwyll. Mae sawl

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

gohebiaeth a gasglwyd yn sgîl eich cais yn ymwneud â darparu cyngor cyfreithiol, ac rydym ni o'r farn y caiff yr ohebiaeth honno ei diogelu gan fraint gyfreithiol, broffesiynol.

Mae hwn yn eithriad cymwys sy'n golygu ei fod felly'n destun prawf lles y cyhoedd: rhaid datgelu'r wybodaeth y gwneir cais amdani oni bai bod peidio â gwneud hynny ar sail braint broffesiynol gyfreithiol o fwy o fudd i'r cyhoedd. Diben yr eithriad, yng nghyd-destun awdurdodau cyhoeddus, yw sicrhau ei bod yn bosibl rhoi cyngor cyfeithiol yn rhydd, i alluogi i drafodaethau gael eu cynnal gan awdurdodau cyhoeddus mewn cyd-destun cyfreithiol gwybodus, ac i sicrhau bod y penderfyniadau sy'n deillio ohonynt yn cael eu llywio'n gyfangwbl gan gyngor cyfreithiol cynhwysfawr o'r fath. Wrth ddarparu'r cyngor hwn, mae angen sicrwydd rhesymol ynghylch cyfrinachedd a, heb hwn, ni fyddai cyngor cyfreithiol o'r fath mor llawn ac mor onest ag y dylai fod fel arall.

Fel awdurdod cyhoeddus, deallwn yr egwyddor bod yn rhaid inni fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol o ran ansawdd ein dulliau o wneud penderfyniadau, o'u cymharu â'r dadleuon yn erbyn datgelu, y credwn sy'n dweud y dylai penderfyniadau gael eu gwneud mewn cyd-destun cyfreithiol ar sail gwybodaeth gyflawn, a heb y cyngor cynhwysfawr hwnnw, y gallai ein dulliau o wneud penderfyniadau fod ar dir bregus.

Ar ôl ystyried yn ofalus, ac am y rhesymau a nodwyd uchod, daethom i'r casgliad fod budd cyhoeddus sylweddol mewn cadw'r eithriad rhag datgelu'r wybodaeth y mae braint gyfreithiol, broffesiynol yn sail iddi, felly, yn yr achos hwn, rydym yn gwrthod datgelu pob gohebiaeth y gofynnwyd amdani yn sgîl eich cais.

Mae’ch cais wedi’i ystyried yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**